**Cynllunio ar gyfer cynnydd mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) i blant rhwng 3 ac 16 oed: enghraifft i gefnogi ymarferwyr**

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn hanfodol yn y Cwricwlwm i Gymru ac yn cyfrannu'n helaeth at gyflawniad y pedwar diben ymhlith dysgwyr. Mae gan CGM rôl hanfodol i'w chwarae o ran datblygiad dysgwyr o fewn y maes Dyniaethau. Nid yw'r enghraifft hon yn darparu cyfres amgen o ddisgrifiadau dysgu ar gyfer pob datganiad o'r pethau sy'n bwysig o ran Dyniaethau. Yn hytrach, mae'n cynnig enghreifftiau o sgiliau disgyblu CGM penodol ac amhenodol a nodwyd o fewn y **disgrifiadau o ddysgu,** a'r **sgiliau cyfannol,** sy'n sail i'r pedwar diben.

**Beth yw sail yr enghraifft hon?**

Dylanwadwyd ar yr enghraifft hon, a grëwyd gan Ganolfan San Silyn yn Wrecsam, gan drafodaethau a chanfyddiadau'r Grŵp Prosiect Cydweithredol CGM 2023/2024, a gafodd ei hwyluso gan Ganolfan San Silyn mewn partneriaeth â Thîm Addysg Esgobaethol Llanelwy, ac roedd yn cynnwys pum ysgol gynradd yn Wrecsam.

**Sut cafodd yr enghraifft hon ei ffurfio?**

Ffurfiwyd y sgiliau CGM a amlinellir yn yr enghraifft hon gan ddefnyddio nifer o ddogfennau yn ogystal â'r disgrifiadau dysgu ar gyfer pob un o'r datganiadau Dyniaethau o beth sy'n bwysig a'r sgiliau cyfannol. Mae'r rhain yn cynnwys y *Canllawiau ar Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg* sydd ar gael ar Hwb, *Religious Education: supporting the early stages of the process of developing the Humanities' AoLE* (Medi 2017) a gynhyrchwyd gan weithgor Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) a Phanel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (PYCAG), a dogfen a gynhyrchwyd gan PYCAG yn 2018 o'r enw *What is essential in RE?*. Mae'r sgiliau CGM yn Nhabl 1 yn dilyn strwythur y teithiau dysgu enghreifftiol yn y canllawiau CGM, sy'n defnyddio tri disgrifiad eang o gynnydd; 'camau cynnar y daith', 'ymhellach ar hyd y daith', ac 'yn ddiweddarach ar y daith'. Caiff y sgiliau CGM yn yr enghraifft hon eu grwpio i bum categori, a fydd o bosibl yn gorgyffwrdd yn naturiol wrth addysgu a dysgu CGM. Penderfynodd Aelodau Grŵp Prosiect Cydweithredol CGM 2023-2024 ar y categorïau arbennig hyn ar ôl cytuno y byddai'n ddefnyddiol, yn ymarferol ac o ran cysyniad, pe bai'r 20 sgil CGM a bennir yn cael eu grwpio yn ôl eu nodweddion cyffredin, er mwyn i ymarferwyr fedru eu defnyddio yn y dosbarth. Y categorïau y penderfynwyd arnynt yw *archwilio, gwerthuso, gwybodaeth a dealltwriaeth, parch, ymateb personol.*

**Sut gallai'r enghraifft hon gefnogi cynlluniau ar gyfer cynnydd mewn CGM?**

Rhagwelwn y bydd ymarferwyr yn defnyddio'r sgiliau CGM a amlinellir yn yr enghraifft hon i'w harwain i werthuso sefyllfa dysgwyr a'u trywydd ar wahanol gyfnodau o'u cynnydd dysgu, yn ogystal â'u helpu i wneud penderfyniadau am gynnwys ac addysgeg CGM. Fodd bynnag, mae Canolfan San Silyn yn annog ymarferwyr i ymgysylltu â'r enghraifft hon mewn modd beirniadol. Nid yw'r sgiliau CGM a amlinellwyd yn derfynol ac mae modd eu diwygio. Anogir ymarferwyr hefyd i gyfathrebu â'i gilydd mewn modd proffesiynol i helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd mewn perthynas â CGM o fewn eu lleoliad. Byddai Canolfan San Silyn yn croesawu adborth ar ddefnyddioldeb yr enghraifft hon o fewn y broses honno.



Canolfan San Silyn St Giles' Centre

Hawlfraint Canolfan San Silyn © 2024. Crëwyd y ddogfen hon gan Libby Jones, yng Nghanolfan San Silyn yn Wrecsam mewn partneriaeth â Thîm Addysg Esgobaeth Llanelwy mewn cydweithrediad â'r ysgolion cynradd canlynol yn Wrecsam: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd; Ysgol Gynradd Gwersyllt; Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn; Ysgol Gynradd St Peter yr Eglwys yng Nghymru, Yr Orsedd; ac Ysgol Gynradd Clawdd Wat.

**Tabl 1. Cynllunio ar gyfer cynnydd mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) i blant rhwng 3 ac 16 oed: enghraifft i gefnogi ymarferwyr**

| | Cam Cynnydd 1 (5 oed) | Cam Cynnydd 2 (8 oed) | Cam Cynnydd 3 (11 oed) | Cam Cynnydd 4 (14 oed) | Cam Cynnydd 5 (oed) |
|---|---|---|---|---|---|

| | Camau cynnar y daith | Ymhellach ar hyd y daith | Yn ddiweddarach ar y daith |
|---|---|---|---|
| Archwilio | Rwy'n dechrau ystyried a gofyn cwestiynau syml am fywyd. | Rwy'n gallu ymgysylltu â rhywfaint o gwestiynau dyfnach am fywyd yn ogystal â rhywfaint o ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i'r cwestiynau hyn. | Rwy'n gallu archwilio'r cwestiynau dyfnach am fywyd ac ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i'r cwestiynau hyn. |
| | Rwy'n dechrau archwilio fy hunaniaeth drwy straeon, credoau a phrofiadau yn fy ardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach. | Rwy'n gallu archwilio ystod o bethau sy'n ffurfio fy hunaniaeth, a disgrifio rhywfaint o straeon, credoau a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol amrywiol pobl yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach. | Rwy'n gallu archwilio a dadansoddi sut caiff hunaniaeth ei ffurfio yng nghyd-destun straeon, credoau a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol amrywiol pobl yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach. |
| | Rwy'n dechrau archwilio rhywfaint o faterion moesegol a moesol sy'n berthnasol i'm bywyd. | Rwy'n gallu ymgysylltu â materion moesegol a moesol, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys y rhai sy'n herio fy ngwybodaeth a'm gwerthoedd fy hun. | Rwy'n gallu archwilio a dadansoddi materion moesegol a moesol, yn y gorffennol a'r presennol, sy'n herio fy ngwybodaeth a'm gwerthoedd fy hun. |
| | Rwy'n dechrau archwilio rhywfaint o gysyniadau a symbolau crefyddol ac anghrefyddol. | Rwy'n gallu ymgysylltu ag ystod o gysyniadau a symbolau crefyddol ac anghrefyddol, a deall eu hystyr. | Rwy'n gallu archwilio, dadansoddi a dehongli cysyniadau a symbolau crefyddol ac anghrefyddol. |
| Gwerthuso | Rwy'n dechrau ymgysylltu â ffynonellau awdurdod a doethineb crefyddol ac anghrefyddol, er enghraifft, drwy straeon. | Rwy'n gallu defnyddio tystiolaeth gan wahanol ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol, gan gynnwys ffynonellau awdurdod a doethineb, arteffactau a phobl i gefnogi fy addysg. | Rwy'n gallu gawerthuso dilysrwydd a dibynadwyedd tystiolaeth gan ystod o ffynonellau doethineb ac awdurdod crefyddol ac anghrefyddol mewn modd beirniadol, gan gynnwys testunau sanctaidd ac athronyddol. |
| | Rwy'n dechrau meddwl am sut rwy'n teimlo am rywfaint o ddigwyddiadau a phrofiadau cyfarwydd. | Rwy'n gallu myfyrio ar fy marn am wahanol ddigwyddiadau a phrofiadau. | Rwy'n gallu myfyrio ar fy safbwyntiau fy hun am ddigwyddiadau a phrofiadau amrywiol, ac rwy'n gallu cydnabod y cyfyngiadau o'm safbwynt i. |
| | Rwy'n dechrau meddwl am deimladau a barn pobl eraill am ddigwyddiadau neu brofiadau cyfarwydd. | Rwy'n gallu deall a chymharu barn pobl am ddigwyddiadau a phrofiadau mewn ffynonellau a thystiolaeth. | Rwy'n gallu meddwl mewn modd beirniadol am y ffyrdd y mae pobl, grwpiau a chymdeithasau crefyddol ac anghrefyddol yn dehongli digwyddiadau a phrofiadau, a gallaf werthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau. |
| | Rwy'n dechrau meddwl am yr effaith yr wyf i ac eraill yn ei chael ar fy nghymuned a'r byd naturiol. | Rwy'n gallu myfyrio ar effaith crefydd a chredoau ar fy nghymuned, diwylliant, cymdeithas a'r byd naturiol. | Rwy'n gallu gwerthuso'r graddau y mae credoau, arferion a chamau gweithredu crefyddol ac anghrefyddol wedi arwain at newidiadau mewn diwylliant, cymdeithas a'r byd naturiol. |



Hawlfraint Canolfan San Silyn © 2024. Crëwyd y ddogfen hon gan Libby Jones, yng Nghanolfan San Silyn yn Wrecsam mewn partneriaeth â Thîm Addysg Esgobaeth Llanelwy mewn cydweithrediad â'r ysgolion cynradd canlynol yn Wrecsam: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd; Ysgol Gynradd Gwersyllt; Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn; Ysgol Gynradd St Peter yr Eglwys yng Nghymru, Yr Orsedd; ac Ysgol Gynradd Clawdd Wat.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a dealltwriaeth | Rwy'n dechrau dod ar draws ffeithiau, barn a chredoau. | Rwy'n gallu deall y gwahaniaeth rhwng ffeithiau, barn a chredoau mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. | Rwy'n gallu egluro'r gwahaniaeth rhwng ffeithiau, barn a chredoau mewn ystod o gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. |
| | Rwy'n dechrau cydnabod mannau addoli a llefydd, tirluniau ac amgylcheddau arbennig eraill yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach. | Rwy'n gallu nodi amrywiaeth o fannau addoli a llefydd, tirluniau ac amgylcheddau arbennig eraill yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach, a disgrifio eu nodweddion. | Rwy'n gallu rhoi esboniadau manwl i nodweddion arbennig ac arwyddocâd crefyddol neu ysbrydol mannau addoli a llefydd, tirluniau ac amgylcheddau arbennig eraill yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach. |
| | Rwy'n dechrau cydnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng fy mywyd i a bywydau eraill. | Rwy'n gallu nodi a disgrifio'r tebygrwydd a'r gwahaniaeth ar draws ac o fewn crefyddau a chredoau. | Rwy'n gallu rhoi esboniadau cynhwysol i'r tebygrwydd a'r gwahaniaeth ar draws ac o fewn crefyddau a chredoau. |
| | Rwy'n dechrau dod ar draws atebion gwahanol i rai cwestiynau pwysig. | Rwy'n gallu disgrifio ymatebion gwahanol i'r cwestiynau dyfnach am fywyd yn ddibynnol ar bwy sy'n ateb a beth yw eu credoau a'u profiadau. | Rwy'n gallu deall fod ymatebion i'r cwestiynau dyfnach am fywyd yn gymhleth ac yn aml yn amhendant, a gallaf egluro sut a pham eu bod yn ffurfio ac yn newid dros amser. |
| Parch | Rwy'n dechrau ystyried teimladau pobl eraill a gallaf gydnabod gwerth fy marn i a barn eraill. | Rwy'n datblygu empathi, parch ac ystyriaeth ar gyfer eraill, gan gynnwys pobl y mae crefydd a chredoau yn bwysig iddynt. | Rwy'n dangos empathi, parch ac ystyriaeth ar gyfer eraill, gan gynnwys pobl y mae crefydd a chredoau yn bwysig iddynt. |
| | Rwy'n dechrau gwneud pethau i bobl eraill yn ogystal â fy hun. | Rwy'n gallu cydnabod fy nghyfrifoldebau mewn perthynas â'm cymuned a'r gymdeithas ehangach. | Rwy'n deall fy rôl a'm cyfrifoldebau i ac eraill mewn perthynas â'r ardal leol a'r gymdeithas ehangach. |
| | Rwy'n dechrau deall bod gan fy ngweithredoedd a'm hymddygiad i a phobl eraill achosion ac effeithiau. | Rwy'n gallu cydnabod ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar fy ngweithredoedd a'm hymddygiad i a phobl eraill, gan gynnwys credoau a gwerthoedd crefyddol ac anghrefyddol. | Rwy'n deall a gwerthfawrogi'r effaith a gaiff credoau a gwerthoedd crefyddol ac anghrefyddol ar weithredoedd ac ymddygiad moesegol a moesol, gan gynnwys fy ngweithredoedd a'm hymddygiad i. |
| | Rwy'n dechrau datblygu fy llais a gwrando ar leisiau eraill. | Rwy'n dechrau datblygu llais ac rwy'n gallu gwrando ar leisiau eraill. Rwy'n dechrau anghytuno heb deimlo'n flin neu'n drist, neu wneud i bobl eraill deimlo'n flin neu'n drist. | Gallaf ddefnyddio fy llais yn briodol, cefnogi pobl i ddefnyddio eu llais nhw, a gallaf anghytuno mewn modd parchus. |
| Ymateb personol | Rwy'n dechrau ffurfio a mynegi barn syml am bethau sy'n bwysig i mi, ac eraill. | Rwy'n gallu datblygu fy ymateb fy hun i rywfaint o'r cwestiynau dyfnach am fywyd a'u mynegi mewn ffyrdd gwahanol, dod i gasgliadau a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. | Rwy'n gallu mynegi fy ymateb personol, gwybodus i gwestiynau dyfnach bywyd mewn modd rhesymegol, gan ystyried gwahanol safbwyntiau. |
| | Rwy'n dechrau archwilio fy nghredoau a'm gwerthoedd personol. | Rwy'n datblygu fy nghredoau a'm gwerthoedd ac yn ystyried sut gallaf eu rhoi ar waith. | Rwy'n gallu ffurfio, mynegi a gweithredu mewn modd cadarnhaol mewn perthynas â'm credoau a'm gwerthoedd personol fel dinesydd gwybodus o ran moeseg. |
| | Rwy'n dechrau profi ac archwilio'r byd naturiol a pherthnasoedd ag eraill. | Rwy'n gallu meddwl am fy mherthnasoedd a'm cysylltiadau gydag eraill a'r byd naturiol. | Gallaf ddadansoddi fy mhrofiad o'r byd naturiol a fy hun mewn perthynas ag eraill. |



Canolfan San Silyn St Giles' Centre

Hawlfraint Canolfan San Silyn © 2024. Crëwyd y ddogfen hon gan Libby Jones, yng Nghanolfan San Silyn yn Wrecsam mewn partneriaeth â Thîm Addysg Esgobaeth Llanelwy mewn cydweithrediad â'r ysgolion cynradd canlynol yn Wrecsam: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd; Ysgol Gynradd Gwersyllt; Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn; Ysgol Gynradd St Peter yr Eglwys yng Nghymru, Yr Orsedd; ac Ysgol Gynradd Clawdd Wat.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rwy’n dechrau archwilio fy ymdeimlad o le a pherthyn. | Rwy’n datblygu ymdeimlad o le a pherthyn yng nghyd-destun fy nghynefin. | Rwy’n gallu mynegi fy ymdeimlad fy hun o le a pherthyn yng nghyd-destun fy nghynefin a gallaf werthfawrogi ei natur gymhleth ac esblygol. |

Yn ystod deialog proffesiynol â chydweithwyr arbenigol sy’n gweithio â lleoliadau meithrin nas cynhelir a gaiff eu hariannu ac ysgolion â darpariaeth meithrin, daeth yn amlwg fod rhywfaint o’r disgrifiadau yn yr enghraifft hon, dan y disgrifiad ‘camau cynnar y siwrnai’ ychydig yn rhy uchelgeisiol ar gyfer plant oedran meithrin, ac efallai y bydd angen rhagflaenydd i’r disgrifiadau hyn.  Felly, datblygwyd tabl 2 mewn cydweithrediad â’r arbenigwyr hynny i helpu ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin i gynllunio ar gyfer CGM, cyn cam cynnydd 1.

| **Tabl 2. Cynllunio ar gyfer cynydd mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) i blant rhwng 3 ac 16 oed: enghraifft i gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin** | |
|---|---|
| | Cyn Cam Cynnydd 1 |
| Archwilio | Rwy’n dechrau bod yn chwilfrydig am fy mywyd ac yn dod ar draws cwestiynau syml sy’n ymwneud â’m bywyd. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws straeon a phrofiadau syml a allai fy helpu i archwilio fy hunaniaeth. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws materion moesol sy’n berthnasol i’m bywyd, er enghraifft, bod yn garedig gydag eraill, rhannu a chymryd tro. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws rhywfaint o gysyniadau a symbolau syml. |
| Gwerthuso | Rwy’n dechrau dod ar draws straeon o ffynonellau awdurdod a doethineb, er enghraifft, y Beibl. |
| | Rwy’n dechrau dod yn ymwybodol o sut rwy’n teimlo am rywfaint o ddigwyddiadau a phrofiadau cyfarwydd. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws teimladau pobl eraill am ddigwyddiadau neu brofiadau cyfarwydd. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws yr effaith rwy’n ei chael ar eraill. |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth | Rwy’n dechrau dod ar draws ffeithiau, barn a chredoau. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws mannau ac amgylcheddau arbennig yn fy ardal leol. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws y tebygrwydd a’r gwahaniaeth rhyngof i ac eraill. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws atebion gwahanol i rai cwestiynau syml. |
| Parch | Rwy’n dechrau dod ar draws teimladau pobl eraill. |
| | Rwy’n dechrau gwneud pethau i mi fy hun. |
| | Rwy’n dechrau dod ar draws rhai o achosion ac effeithiau fy ngweithredoedd. |
| | Rwy’n dechrau datblygu fy llais. |



Canolfan San Silyn St Giles’ Centre

Hawlfraint Canolfan San Silyn © 2024. Crëwyd y ddogfen hon gan Libby Jones, yng Nghanolfan San Silyn yn Wrecsam mewn partneriaeth â Thîm Addysg Esgobaeth Llanelwy mewn cydweithrediad â’r ysgolion cynradd canlynol yn Wrecsam: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd; Ysgol Gynradd Gwersyllt; Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn; Ysgol Gynradd St Peter yr Eglwys yng Nghymru, Yr Orsedd; ac Ysgol Gynradd Clawdd Wat.

| | |
|---|---|
| Ymateb personol | Rwy'n dechrau ffurfio a mynegi barn syml am y pethau rwy'n eu hoffi a'r pethau nad wyf yn eu hoffi. |
| | Rwy'n dechrau dod ar draws credoau a gwerthoedd. |
| | Rwy'n dechrau dod ar draws y byd naturiol a pherthnasoedd ag eraill. |
| | Rwy'n dechrau dod ar draws y lle yr wyf yn byw a'r ymdeimlad o berthyn. |



Canolfan San Silyn St Giles' Centre

Hawlfraint Canolfan San Silyn © 2024. Crëwyd y ddogfen hon gan Libby Jones, yng Nghanolfan San Silyn yn Wrecsam mewn partneriaeth â Thîm Addysg Esgobaeth Llanelwy mewn cydweithrediad â'r ysgolion cynradd canlynol yn Wrecsam: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd; Ysgol Gynradd Gwersyllt; Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn; Ysgol Gynradd St Peter yr Eglwys yng Nghymru, Yr Orsedd; ac Ysgol Gynradd Clawdd Wat.